

## GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

### MANYLEB Y PERSON

<b>ADRAN</b>	Adran Fflyd a Gwasanaethau Peirianeg
<b>TEITL Y SWYDD</b>	Prentis Technegydd LGV
<b>GRADDFA</b>	Prentis
<b>LLEOLIAD</b>	Pencadlys Gwasanaeth Tân Ac Achub De Cymru

Defnyddir meini prawf hanfodol **a amlygir ac a nodir â seren\*** at ddibenion llunio rhestr fer. A wnewch chi sicrhau yr ewch i'r afael â'r gofynion hyn yn eich Ffurflen Gais (o dan Adran '*Profiad a Gwybodaeth Arall*'). Dylech ddarparu tystiolaeth eglur sy'n arddangos eich bod yn cwrdd â phob maes ar sail eich sgiliau, gwybodaeth, profiad a gallu sy'n berthnasol i'r swydd.

Lle amlygir cymhwyster fel 'Maen Prawf Hanfodol', bydd angen i chi ddarparu copi o'ch Tystysgrifau ynghyd â'ch Ffurflen Gais.

<b>Ffactor</b>	<b>Tystiolaeth</b>	<b>Hanfodol/ Dymunol</b>	<b>Dull Canfod</b>
<b>Cymwysterau</b>	<b>TGAU Graddfa C neu Uwch yn Saesneg a Mathemateg NEU Sgiliau Hanfodol Cymru Lefel 2 Mewn Cyfathrebu a Chymhwyso Rhif*</b>	<b>Hanfodol*</b>	<b>Cais*</b>
<b>Gwybodaeth/ Profiad</b>	<b>Y gallu i arddangos sgiliau mecanyddol sylfaenol*</b>	<b>Hanfodol*</b>	<b>Cais*/Dethol</b>
	<b>Trwydded Yrru Categori B (Car) neu fod yn fodlon hyfforddi ar gyfer Trwydded Categori B*</b>	<b>Hanfodol*</b>	<b>Cais*</b>
	Gallu i siarad Cymraeg neu fod yn fodlon i ddysgu Cymraeg	Dymunol	Cais
<b>Arddull Bersonol</b>	<b>Dealltwriaeth a pharch am eraill*</b>	<b>Hanfodol*</b>	<b>Cais*/Dethol</b>
<b>Rhyngbersonol</b>	<b>Y cymhelliad a'r gallu i ddatblygu eich hun ac eraill*</b>	<b>Hanfodol*</b>	<b>Cais*/Dethol</b>
	Y gallu i gyfathrebu yn effeithiol i ystod eang o wahanol gynulleidfaoedd	Hanfodol	Dethol
	Y gallu i weithio yn effeithiol gydag eraill o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Gymuned ill dau	Hanfodol	Dethol

Tasg	Y gallu i fabwysiadu agwedd gydwybodol a rhagweithiol at waith ac i gyflawni a chynnal safonau rhagorol*	Hanfodol*	Cais*/Dethol
	Y gallu i ddeall, dwyn i gof, gweithredu ac addasu gwybodaeth berthnasol mewn modd trefnus, diogel a chyfundrefnol	Hanfodol	Dethol

Bydd gofyn teithio'n gyson rhwng safleoedd yn Ne Cymru ac mae angen i ddeiliad y swydd allu teithio'n annibynnol.

Bydd y swydd yn gofyn i chi weithio weithiau ar benwythnosau/allan o oriau gwaith.

Disgwylir i ddeiliad y swydd ennill cymhwyster Prentisiaeth Sylfaenol Lefel 2 a 3 ochr yn ochr â'u gwaith bob dydd.

Ni all ymgeiswyr sy'n dymuno cael eu hystyried fod â chymhwyster uwch na chymhwyster gwrthdrawiadol o fewn yr un pwnc nac ychwaith ymgymryd ag unrhyw gymhwyster arall a ariennir gan y llywodraeth.

A fyddech cystal â nodi lle na dderbyniodd ymgeisydd eu canlyniadau TGAU, gofynnir iddynt gynhyrchu'u graddau daroganedig.

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y ddwy iaith.

